

Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw,
am 7 yh nos Fercher 18^{ed} Ionawr 2017

Presennol: *R Hussey (Cad), K Woods, J H Williams, R B Owen, W Hughes, R F Owen, A Gilmour, J H Owens, Cyng P Rogers*

Ymddiheuriadau: *C G Topps, D Nash, R Stallwood, M T Smithurst*

1. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenotol a gynhaliwyd ar 16/11/2016 eu derbyn yn gywir ar sail yr adroddiad Saesneg a ddsbarthwyd gyda'r Agenda. KW yn cynnig, eiliwyd gan AG.

2. Materion yn codi

- Gwefan - Clerc i wneud ymholiadau ynglŷn â rhai agweddau annerbyniol megis cysylltiadau i gynghorau cymuned eraill. Clerc hefyd i wneud ymholiadau ynglŷn â chyfeiriadau e-bost ar gyfer yr aelodau.
- Neuadd Glannau Ffraw
KW yn adrodd fod y trydanwr yn bwriadu dechrau ar y gwaith o osod goleuadau newydd LED yn ystod yr wythnos nesaf. Adroddwyd fod Swyddog Tan yn bwriadu asesu'r Ystafell Bwyllgor mewn perthynas â chwedd â gofynion deddfwriaeth diogelwch tan. Efallai y bydd angen gosod allanfa dan yng nghefn yr ystafell. KW i adrodd yn ôl.
Bwriedir creu cyfleusterau aml bwrpas toiled anabl /newid babanod.
KW yn adrodd fod staff y Cylch Meithrin yn llenwi'r boiler fel bo'r angen.
Yn dilyn cais a wnaed i Adran Briffyrdd y Cyngor baentio marciau ar fynedfa'r neuadd i atal pobl rhag parcio, derbyniwyd gohebiaeth yn cynnig dau opsiwn o ran paentio sef:
 - 1) Y geiriau "DIM PARCIO / NO PARKING"
 - 2) Bocs melyn
 Cafwyd cytundeb unfrydol fod y Clerc yn gofyn i'r Adran Briffyrdd fwrw ymlaen ag Opsiwn 1.
- Goleuni Stryd – Dim pryderon.
- Ffordd Trefri- CGT i fynychu cyfarfod gydag Ystâd Bodorgan ar ddydd Gwener 18/11/2016. CGT ddim yn bresennol i adrodd yn ôl. KW yn adrodd for Ystad Bodorgan yn ystyried agor dyfrffyrdd yn yr ardal.
- Barclodiad y Gawres - E-bost wedi ei derbyn gan Swyddog Mynediad yr Arfordir yn cadarnhau fod y Cyngor Sir yn bwriadu gwella'r llwybr yn y dyfodol agos. Dim gwybodaeth bellach.
- Y Fynwent – Llythyr wedi ei anfon at Gyngor Sir Ynys Môn yn gofyn am gadarnhad fod y tir wedi ei ddynodi ar gyfer defnydd fel mynwent. Disgwyl ymateb.
- Rhandiroedd –KW yn cadarnhau ei fod wedi gofyn i Mr Christopher Jones edrych ar y gwaith o glirio'r ffynnon. KW i wneud ymholiadau gyda Mr Jones.
- Fflatiau Maes Llewelyn -Clerc yn adrodd ei bod wedi derbyn galwad ffôn gan Dr Gwynne Jones yn ymateb i'r llythyr a anfonwyd ym mis Hydref. Cyfarfod ar y safle wedi ei gynnal ar 6/12/2016, wedi ei fynychu gan aelodau'r Cyngor Cymuned a Cyng. Peter Rogers ynghyd â chynrychiolwyr o Adran Dai Cyngor Sir Ynys Môn. Bwriedir cwblhau gwaith trin sylweddol ar y fflatiau yn y dyfodol agos. Digwyddiad cymunedol i'w gynnal ar 2il Chwefror yn Neuadd Glannau Ffraw i roi cyfle i drigolion Maes Llewelyn edrych ar y cynlluniau a gofyn cwestiynau.
- Cychod wedi eu gadael – CGT i ymchwilio ac adrodd yn ôl.
- Croesffordd Dothan-Arwyddbost newydd. KW yn adrodd ei fod yn bwriadu cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Goleg Menai ym mis Chwefror. JHW yn adrodd fod angen arwydd newydd ar gyffordd Capel Dothan yn ogystal. KW i wneud ymholiadau.
- Torri gwrychyn – Lon y rhandiroedd. Clerc yn cadarnhau ei bod wedi trefni fod RPG yn cwblhau'r gwaith.

Cadeirydd.....

Clerc.....

- Fforwm Mynediad Lleol – JHO wedi ei enwebu ar ran Cyngor Cymuned Aberffraw. Mr Owen yn cadarnhau ei fod wedi cwblhau ffurflen gais ac yn disgwyl ymateb.

3. Ceisiadau cynllunio

Safle Ysgol Gynradd Aberffraw- Cais llawn i greu dau annedd ac oriel gymunedol i arddangos celf. JHO yn adrodd ei fod wedi astudio'r cynlluniau ac yn cadarnhau fod y datblygiad wedi ei gyfyngu i'r adeilad presennol. - Dim sylwadau.

4. Adolygu'r Gyllideb - Chwarteri 1 – 3

Clerc wedi argraffu copi o'r adolygiad ar gyfer y cyfnod Medi - Rhagfyr 2016. Cynigwyd gan KW ac eiliwyd gan JHO fod Cyngor Cymuned Aberffraw yn cymeradwyo'r adolygiad.

5. Cyllideb a Phriseb ar gyfer 2017-18

Rhodddwyd copïau o'r Gyllideb Ddrafft i'r aelodau. Cynigwyd gan KW ac eiliwyd gan WH fod Cyngor Cymuned Aberffraw yn cymeradwyo'r Gyllideb ar gyfer 2017/18. Cynigwyd gan RBO ac eiliwyd gan WH y dylid gadael y Priseb blynyddol ar y lefel bresennol sef £7000.

6. Rheoliadau Ariannol

Cynigwyd gan KW ac eiliwyd gan WH fod Cyngor Cymuned Aberffraw yn mabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol diwygiedig a ddarparwyd gan Un Llais Cymru.

7. Gohebiaeth

- Cyngor Sir Ynys Môn– Pwyllgor Safonau. Nodyn briffio wedi ei dderbyn yn egluro'r gofynion cyfreithiol mewn perthynas â datgan a chofrestru diddordeb gan aelodau Cynghorau Tref a Chymuned. Cafwyd trafodaeth ar gynnwys y nodyn a rhodddwyd copi i'r holl aelodau.
- Eisteddfod Genedlaethol Môn- llythyr wedi ei dderbyn yn hysbysu'r Clerc fod pwyllgor apêl wedi ei sefydlu yn ardal Aberffraw. Adroddodd y Clerc ei bod wedi methu â dod o hud i unrhyw fanylion cyswllt ar gyfer y pwyllgor er gwaethaf ymchwilio ar y we a holi swyddfa ganolog yr eisteddfod. Cytunwyd y dylid talu cyfraniad Cyngor Cymuned Aberffraw o £600 i gronfa Môn.
- Cyngor Sir Ynys Môn - Rhybudd ynglŷn â chau'r ffyrdd dros dro ger Gorsaf Ty Croes a Fferm Treiddon.
- Un Llais Cymru - gwybodaeth ynglŷn â hyfforddiant.
- Mon Grass cutting Services – Anfoneb wedi ei hawdurdodi i'w thalu.
- Christine Bowler - Spirit of Bro Aberffraw. Cais fod y Cyngor Cymuned yn arwyddo'r daflen caniatâd i alluogi'r prosiect bwrdd arddangos celf fwrw yn ei flaen. Bwriedir gosod y bwrdd ar dir Neuadd Glannau Ffraw. Mae'r daflen yn datgan “Rydym wedi ein hysbysu na fydd unrhyw gost yn gysylltiedig â'r cynllun ac y bydd gwirfoddolwyr yn cwblhau unrhyw waith cynnal a chadw fel bo'r angen.”. Y ffurflen wedi ei harwyddo gan RH ar ran y Cyngor Cymuned a RBO ar ran pwyllgor y Neuadd. Clerc i grybwyll fod Ms Bowler yn cysylltu ag Ystâd Bodorgan fel perchennog y tir.

8. UFA

- Cyngor Sir Ynys Môn - Ymgynghoriad y gyllideb. RH yn mynegi pryderon ynglŷn â'r diffyg gwybodaeth yn y ddogfen uchod. Pryder yn arbennig mewn perthynas â'r pennawd “incwm yn deillio o werthu asedau” fodd bynnag nid oes unrhyw fanylion ynglŷn â gwerth yr asedau.
- JHO yn mynegi pryderon ynglŷn â'r damweiniau cyson ar y tro yn dilyn Pont Rheilffordd Bodorgan. Clerc i gysylltu â'r Adran Briffyrdd.
- Llys Llewelyn – toiledau. Cafwyd adroddiadau fod y perchennog newydd wedi cau'r toiledau cyhoeddus hen unrhyw rybudd. Clerc i gysylltu â'r perchennog i fynegi siom. KW i gysylltu â'r Clerc gyda manylion cyswllt y perchennog.
- Y fynwent wedi ei gadael mewn cyflwr annerbyniol yn dilyn angladd diweddar. Adroddiad wedi ei baratoi gan JHO. Clerc yn cadarnhau fod yr ymgymwr yn ymwybodol nad yw'r Cyngor Cymuned yn fodlon gyda chyflwr y bedd na'r tir o'i hamgylch.

Cadeirydd.....

Clerc.....

- Clwb Pêl droed Aberffraw- WH yn adrodd fod Mr R Roberts wedi gwneud ymholiadau ynglŷn â chyfraniad tuag at y Clwb Pêl droed. Clerc i gysylltu â Mr Roberts i egluro y byddai angen i'r clwb wneud cais ysgrifenedig am arian. Clerc hefyd i wneud cais am gopi o gyfrifon diweddaraf y Clwb gan fod y Cyngor Cymuned wedi ei ariannu yn bennaf gan arian cyhoeddus.
- Sicc o £80.00 wedi ei derbyn gan Mr J H Owens mewn perthynas â Lotri'r Fynwent.

9. Cyllid

Taliadau:

06/12/2016	M Evans	Costau'r Clerc	275.71
06/12/2016	Ystâd Bodorgan	Rhent	3844.00
12/12/2016	Mon Grass Cutting Services	Torri glaswellt	320.00
12/12/2016	D Hughes	Torri glaswellt y neuadd	330.00

Derbyniadau:

21/12/2016	Amrywiol	Rhenti	4185.00
16/01/2017	W A Jones	Rhent	428.00
16/01/2017	Melvin Rowlands	Y Fynwent	60.00

10. Lotri - L01

1af	103	Mr W Hughes	£25.00
2il	98	Mrs Rhian Jones	£10.00

Cadeirydd.....

Clerc.....

Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw
am 7 ym ar nos Fercher 15^{fed} o Chwefror 2017

Presennol: *R Hussey (Cad), K Woods, R B Owen, W Hughes, R F Owen, M T Smithurst, A Gilmour, J H Owens,*

Ymddiheuriadau: *C G Topps, J H Williams, D Nash, R Stallwood, Cyng P Rogers*

1. Cofnodion

The Minutes of the previous a gynhaliwyd ar 18/01/2017 eu derbyn yn gywir ar sail yr adroddiad Saesneg a ddisbarthwyd gyda'r Agenda. JHO yn cynnig, eilwyd gan RBO.

2. Materion yn codi

2.1 Gwefan- Clerc yn adrodd fod y cofnodion a manylion y Cynghorwyr wedi eu diweddarau erbyn hyn. Angen Cyfrineiriau gan RS er mwyn trefnu cyfeiriadau ebys ar gyfer aelodau.

2.2. Neuadd Glannau Ffraw

KW yn adrodd fod y goleuadau LED newydd wedi eu gosodac yn gweithio'n effeithiol. Nid yw'r trydanner wedi codi am osod y goleuadau yn y brif neuadd. Disgwyl ymweliad gan y Swyddog Tan i asesu'r ystafell bwyllgor mewn perthynas â rheoliadau tan.

Mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer atal parcio ar draws fynedfa'r neuadd, Clerc yn cadarnhau ei bod wedi gofyn i'r Cyngor Sir fynd ymlaen gyda'r opsiwn o baentio'r geiriau "DIM PARCIO / NO PARKING" ar wyneb y fynedfa fel y cytunwyd yng nghyfarfod mis Ionawr.

Ad-daliad o £667.73 wedi ei wneud i KW am gostau amrywiol yn ymwneud â'r neuadd megis deunyddiau adeiladu a thanwydd ar gyfer y boiler. KW wedi cyflwyno anfonebau gwreiddiol.

2.3. Goleuni Stryd- Dim pryderon.

- **2.4. Ffordd Trefri**- CGT i fynychu cyfarfod yn swyddfa Ystad Bodorgan ar 18/11/2016. CGT ddim yn bresennol i adrodd yn ôl. KW yn adrodd for Ystad Bodorgan yn ystyried agor dyfrffyrdd yn yr ardal.

2.4. Barclodiad y Gawres - Ebst wedi ei derbyn gan Swyddog Mynediad yr Arfordir yn cadarnhau fod y Cyngor Sir yn bwriadu gwella'r llwybr yn y dyfodol agos. Dim gwybodaeth bellach.

2.5. Y Fynwent - Llythyr wedi ei dderbyn gan Gyngor Sir Ynys Môn yn cadarnhau nad yw'r tir dan sylw wedi ei ddynodi ar gyfer defnydd fel mynwent. Cynigwyd gan MTS ac eilwyd gan JHO fod Cyngor Cymuned Aberffraw yn prynu'r tir yn unol â'r termau a nodwyd yn y llythyr gwreiddiol gan y Cyngor Sir.

2.6. Rhandiroedd - KW yn cadarnhau ei fod wedi gofyn i Mr Christopher Jones edrych ar y gwaith o glirio'r ffynnon. KW i drafod gyda Mr Jones. I'w drafod yng nghyfarfod mis Mawrth.

2.7. Fflatiau Maes Llewelyn Digwyddiad cymunedol wedi ei gynnal yn Neuadd Glannau Ffraw ar 2il Chwefror i roi cyfle i drigolion Maes Llewelyn edrych ar y cynlluniau ar gyfer y gwaith adnewyddu. Cafwyd adroddiadau fod DU Construction bellach ar y safle. Y gwaith i gynnwys adnewyddu'r touau, ffenestri, waliau allanol a'r mynedfeydd.

2.8. Cychod wedi eu gadael - i'w drafod yng nghyfarfod mis Mawrth.

2.9. Croesffordd Dothan - Replacement signpost. I'w drafod yng nghyfarfod mis Mawrth.

2.10. Torri gwrychyn- lôn y rhandiroedd. Anfoneb am £240.00 + TAW wedi ei derbyn. JHO i gadarnhau fod y gwaith wedi ei gwblhau.

2.11. Fforwm Mynediad Lleol - JHO yn adrodd fod cyfarfod o'r fforwm i'w gynnal ar 02/03/2017.

2.12. Esteddod Genedlaethol Môn- Clerc bellach wedi ei hysbysu nad oes pwyllgor apel wedi ei sefydlu dros ardal Aberffraw. Clerc i anfon cyfraniad o £600 i'r gronfa ganolog.

2.13. Toiledau Llys Llewelyn - Clerc yn cadarnhau fod llythyr wedi ei anfon at y perchennog newydd. Disgwyl ymateb.

- **2.14. Cyngor Sir Ynys Môn - Ymgynghoriad y gyllideb**. RH yn mynegi pryderon ynglŷn â'r diffyg gwybodaeth yn y ddogfen uchod. Pryder yn arbennig mewn perthynas â'r pennawd "incwm yn deillio

Cadeirydd.....

Clerc.....

o werthu asedau” fodd bynnag nid oes unrhyw fanylion ynglŷn â gwerth yr asedau. I’w drafod yng nghyfarfod mis Mawrth.

2.15. Ffordd ger Pont Rheilffordd Bodorgan– Clerc yn cadarnhau ei bod wedi cysylltu â’r Adran Briffyrdd.

2.16. Clwb Peldroed Aberffraw – Ymhellach i adroddiadau fod Mr R Roberts wedi gwneud ymholiadau ynglŷn â chyfraniad tuag at y Clwb Pel droed, Clerc yn cadarnhau ei bod wedi anfon llythyr at Mr Roberts yn egluro y byddai angen i’r Clwb wneud cais ysgrifenedig. Clerc hefyd wedi gofyn am gopi o gyfrifon y Clwb gan fod rhaid ystyried fod y Cyngor Cymuned wedi ei ariannu gan arian cyhoeddus pan yn penderfynu ar roddion. Disgwyl ymateb.

2.17. Christine Bowler – Spirit of Bro Aberffraw – Byrddau arddangos celf. KW yn cynnig cyfarfod â Ms Bowler i drafod opsiynau o ran lleoliadau. Clerc i ddarparu manylion cyswllt.

2 Ceisiadau Cynllunio

2.1. Rhif 33 Sgwâr Bodorgan, Aberffraw - Cais cynllunio ar gyfer newid defnydd o siop i annedd - Dim sylwadau.

3 Gohebiaeth

3.1. Mon Grass Cutting Services – Amcan bris ar gyfer torri glaswellt am dymor 2017 – i’w gadw ar yr run pris â’r blynyddoedd blaenorol. Cytunwyd gan bawb y dylid derbyn y pris.

3.2. Rhun ap Iorwerth AC– cylchlythyr

3.3. Swyddfa Archwilio Cymru – Anfoneb yn dilyn yr archwiliad allanol - £197.70. Awdurdodwyd i’w thalu.

3.4. Swyddfa Archwilio Cymru - Gwybodaeth ynglŷn â webinar “Rheolaeth Ariannol mewn Cyngorau Tref a Chymuned” i’w gynnal ar 27/2/2017. Pryderon wedi eu datgan gan yr Archwiliwr Cyffredinol ynglŷn â’r nifer uchel o Gynghorau Cymuned yn derbyn “barn amodol” yn y flwyddyn gyntaf o’r drefn newydd o archwilio. JHO yn datgan nad oed angen i’r Cyngor Cymuned bryderu gan fod yr Archwiliwr Mewnol yn sicrhau fod y gwaith wedi ei gwblhau yn gywir. Clerc yn egluro nad yw hyn bellach yn wir fel y dengys gan y ffaith fod nifer o Gynghorau Cymuned wedi derbyn barn amodol er waethaf archwiliad mewnol ac mai cyfrifoldeb y Cynghorau Cymuned a’r Clercod yn benodol yw sicrhau cydymffurfiaeth. Clerc yn cadarnhau fod Cyngor Cymuned Aberffraw wedi derbyn adroddiad o farn ddiamod mewn perthynas â’r flwyddyn 2015-16.

3.5. Cynllun Datblygu ar y Cyd Gwynedd/ Môn – wedi ei basio i RH

3.6. Un Llais Cymru - Tanysgrifiad ar gyfer 2017/18 £103.00. Cytunwyd y dylid parhau â’r aelodaeth.

4 UFA

4.1. Swydd y Clerc – Clerc yn datgan ei bod yn bwriadu ymddiswyddo cyn diwedd y flwyddyn. Clerc am aros yn y swydd dros ddiwedd y flwyddyn ariannol hyd nes y bydd yr archwiliad wedi ei gwblhau. Dyddiadau ar gyfer hysbysu’r swydd i’w trafod yng nghyfarfod mis Mawrth.

4.2. Parcio - Stryd Bangor/ Stryd yr Eglwys - pryderon ynglŷn â cherbydau wedi eu parcio yn agos i’r gyffordd yn rhwystro mynediad i gerbydau mwy. Clerc i gysylltu â’r heddlu.

5 Cyllid

Taliadau:

Dim

Derbyniadau:

Dim

6 Lotri - L02

1af	71	Doreen Jones	£25.00
2il	1	Cyng. Peter Rogers	£10.00

Cadeirydd.....

Clerc.....

Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw am 7 yh nos Fercher 15fed o Fawrth 2017

Presennol: *C G Topps (Cad), R Hussey, K Woods, R B Owen, W Hughes, R F Owen, M T Smithurst, A Gilmour, J H Owens, J H Williams, R Stallwood, Cllr P Rogers*

Ymddiheuriadau: *D Nash, K Woods*

1. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 15/02/2017 eu derbyn yn gywir ar sail yr adroddiad Saesneg a ddisbarthwyd gyda'r Agenda. JHO yn cynnig, eiliwyd gan MTS.

2. Materion yn codi

2.1 Gwefan - RS angen cyfrinair gan Anglesey Computer Solutions. RS i gysylltu â Mr Neil Summers.

2.2. Neuadd Glannau Ffraw -KW ddim yn bresennol i adrodd yn ol (gweler 4.1).

2.3. Goleuni Stryd - Dim problemau.

2.4. Ffordd Trefri - CGT yn adrodd fod Ystâd Bodorgan wedi cyflogi warden. Dyletswyddau i gynnwys cadw golwg ar y sefyllfa barcio ar Ffordd Trefri.

2.4. Barclodiad y Gawres - e-bost wedi ei derbyn gan Swyddog Mynediad yr Arfordir yn cadarnhau fod y Cyngor Sir yn bwriadu gwella'r llwybr yn y dyfodol agos. Dim gwybodaeth bellach.

2.5 . Y fynwent - Prynu tir. Disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir.

2.6. Rhandiroedd - KW i drafod clirio'r ffynnon gyda Mr Christopher Jones. KW ddim yn bresennol i adrodd yn ôl.

2.8. Cychod wedi eu gadael - Cafwyd adroddiadau fod y cychod wedi eu symud o dir llanw ac wedi eu gadael ar dir y tywyn. Clerc i gysylltu â Mr John Ratcliffe CNC.

2.9. Croesffordd Dothan - KW ddim yn bresennol i adrodd yn ôl. JHW yn mynegi pryderon ynglŷn â defnyddwyr y ffordd yn cael anhawster i ddarllen yr ysgrifen ar yr arwydd. Cytunwyd y dylai'r Cyngor Cymuned ystyried gwneud cais am arwydd metel gan y Cyngor Sir fel mesur dros dro.

2.10. Torri gwrychyn - ffordd y rhandiroedd. Adroddwyd fod rhan o'r lon hen ei thorri.. Clerc i gysylltu â RPG.

2.11. Fforwm Mynediad Lleol - JHO yn adrodd ei fod wedi mynychu cyfarfod o'r fforwm ar 02/03/2017.

2.13. Llys Llewelyn - toiledau. Clerc yn adrodd fod perchennog Llys Llewelyn wedi cysylltu dros y ffon ac wedi datgan mai dros dro y byddai'r toiledau ar gau. Mae cais cynllunio wedi ei gyflwyno sydd yn cynnwys toiled amlbwrpas a fyddai yn agored i'r cyhoedd. Pryderon difrifol ynglŷn â'r diffyg toiledau cyhoeddus yn y pentref dros wyl y Pasg. Cytunwyd y dylai CGT gysylltu â Mr Cantrell i drafod y mater ar ran y Cyngor Cymuned. Cynigwyd gan MTS a chytunodd bawb fod y Cyngor Cymuned yn awdurdodi cyllideb o hyd at £300 i'w gynnig fel cyfraniad i hwyluso ail-agor y toiledau ar frys.

2.14. Cyngor Sir Ynys Môn - Ymgynghoriad y Gyllideb. RH yn mynegi pryderon ynglŷn â'r diffyg manylion yn y ddogfen. Pryder yn arbennig mewn perthynas â'r pennawd "incwm yn deillio o werthu asedau" fodd bynnag nid oes unrhyw fanylion ynglŷn â gwerth yr asedau. Cyng P Rogers i ymchwilio.

2.15. Ffordd ger Pont Rheilffordd Bodorgan - Ymateb wedi ei dderbyn gan Adran Briffyrdd y Cyngor Sir yn datgan eu bod am edrych ar y lleoliad.

2.16. Clwb Pêl droed Aberffraw - Copi o lythyr yn gofyn am gyfraniad tuag at Glwb Pêl droed Aberffraw. Cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn cyfrannu £200 ar dderbyn copi o gyfrifon diweddaraf y clwb.

2.17. Christine Bowler - Ysbryd Bro Aberffraw - Byddai ar gyfer arddangos celf. KW wedi trefnu i gyfarfod â Ms Bowler i drafod lleoliadau addas ar gyfer y byrddau. KW ddim yn bresennol i adrodd yn ôl.

3 Ceisiadau Cynllunio

2.1. Llys Llewelyn, Aberffraw - Cais llawn ar gyfer newid defnydd rhan o'r adeilad o swyddfa a siop i ddwy uned wyliau. Pryderon fod uned manwerthu arall yn diflannu o'r pentref a'r golled o Lys Llewelyn fel canolfan ddiwylliannol / dreftadaeth. Clerc i gysylltu â'r Adran Gynllunio.

Cadeirydd.....

Clerc.....

2.2. Maes Llywelyn, Aberffraw – Trin rhan o Faes Llewellyn. Adroddwyd fod y cwmni adeiladu ar y safle ac y disgwylir i'r gwaith gymryd oddeutu 6 mis i'w gwblhau. Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r diffyg cynllun rheoli traffig. Adroddwyd hefyd fod trigolion yn llenwi sgipiau sydd wedi eu gadael ar ochr y ffordd ar gyfer y gwaith gyda sbwriel. Cyng. Peter Rogers i wneud ymholiadau.

4 Gohebiaeth

- 4.1. Christine Hallsworth - ynglŷn â Phwyllgor Rheoli Neuadd Glannau Ffraw. Llythyr wedi ei dderbyn yn datgan fod holl aelodau'r pwyllgor rheoli, ar wahân i'r Cadeirydd, wedi ymddiswyddo ar Fawrth 1af 2017. Copi o gofnodion y pwyllgor diwethaf ynghlwm. Cafwyd fod y cofnodion yn cynnwys adroddiad ynglŷn â phroblemau gyda'r sustem wresogi. Honnir nad yw'r gwresogyddion yn gweithio o ganlyniad i beipen yn gollwng dŵr yn ystafell y boiler. Cytunwyd y dylid trefnu cyfarfod cyhoeddus ar 5ed Ebrill i drafod dyfodol y Neuadd ac i ffurfio Pwyllgor Rheoli newydd. Clerc i ddarparu rhybuddion.
- 4.2 Rhun ap Iorwerth AC– Cylchlythyr
- 4.3 Cyngor Sir Ynys Môn - Rheoli Gwastraff. Cwyn wedi ei dderbyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â sbwriel, yn cynnwys gwydrau wedi torri , ar y cae chwarae. CGT, RS ac AG i ymchwilio.
- 4.4 Panel Cydnabyddiaeth Cymru - gwybodaeth ynglŷn â thaliadau i aelodau Cyngorau Tref a Chymuned.
- 4.5 Cyngor Sir Ynys Môn – Pwyllgor Safonau. Crynodeb o benderfyniadau a wnaed gan Banel Dyfarnu Cymru – wedi ei ddwyn i sylw'r aelodau.
- 4.6 Cyngor Sir Ynys Môn - Etholiadau Cyngorau Cymuned / Tref 4ydd o Fai 2017. Pecynnau enwebu wedi eu rhannu i'r aelodau. I'w dychwelyd i'r swyddfa yn Llangefni erbyn 4:00 y.h. ar 4ydd o Ebrill 2017.
- 4.7 Cyngor Sir Ynys Môn – Rheoli Gwastraff – Treialu Gorfodaeth. Y Cyngor Sir yn bwriadu treialu cwmni preifat o ddechrau'r haf 2017 wedi ei awdurdodi i godi dirwy o £75 am bob trosedd o adael sbwriel neu faw ci. Bydd y cwmni yn cyflogi eu swyddogion gorfodaeth eu hunain. Cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cynnig ar yr amod nad oes cost ychwanegol i'r trethdalwr.

5. UFA

- 5.1. Swydd y Clerc – Clerc i ddarparu hysbyseb.
- 5.2. Parcio - Stryd Bangor / Stryd yr Eglwys- CGT yn adrodd fod y broblem wedi ei dwyn i sylw nifer o swyddogion cymunedol yr heddlu yn y gorffennol. Clerc yn adrodd fod Adran Briffyrd y Cyngor Sir wedi datgan ym Mehefin 2015 eu bod yn ystyried gosod llinellau melyn dwbl ar y gyffordd. Clerc i wneud ymholiadau gyda'r Adran Briffyrd.
- 5.3. Trac Môn - RS yn mynegi pryderon ynglŷn â'r dull o fesur sef cymryd cyfartaledd lefel y sŵn dros gyfnod o awr. Clerc i ysgrifennu at Huw Thomas, Cyngor Sir Ynys Môn.

6. Cyllid

Taliadau:

K Woods	Ad-daliad – Neuadd Glannau Ffraw	£667.73
Wales Audit Office	Archwiliad allanol	£197.70
Eisteddfod Genedlaethol	Rhodd	£600.00

Derbyniadau:

J H Owens	Lotri'r fynwent	£80.00
Preswylfa Ltd	Y fynwent	£75.00
D Nash	Lotri'r fynwent	£60.00

7. Lotri - L03

1af	111	Mrs Catherine Williams	£25.00
2il	52	Glenda Hughes	£10.00

Cadeirydd.....

Clerc.....

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberffraw a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw am 7 y.h. ar nos Fercher 26ain o Ebrill 2017

Presennol: *CG Topps (Cad) R F Owen, M T Smithurst, K Woods, A Gilmour, R Stallwood, B Coleman (Aelod o'r Cyhoedd)*

Ymddiheuriadau: *R Hussey, J H Williams, D Nash, R B Owen, J H Owen, W Hughes*

1. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar y 15/03/2017 eu derbyn yn gywir ar sail yr adroddiad Saesneg a ddsbarthwyd gyda'r Agenda. AG yn cynnig, eiliwyd gan RFO.

2. Materion yn codi

2.1 Gwefan - RS angen cyfrinair gan Anglesey Computer Solutions i symud ymlaen. RS i gysylltu â Mr Neil Summers.

2.2. Neuadd Glannau Ffraw- Adroddwyd mai nifer fechan iawn oedd wedi mynychu'r cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 5ed o Ebrill. Nid oes Pwyllgor Rheoli bellach ar y Neuadd. Awgrymwyd y dylid cysylltu â grwpiau sydd yn defnyddio'r neuadd. Y mater i'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf. Mewn perthynas â'r gwaith adnewyddu, KW yn adrodd fod y Swyddog Tan wedi ymweld â'i fod yn fodlon gyda'r cynlluniau. Bydd angen gosod drws yn lle'r ffenest rhwng y gegin a'r brif neuadd.

2.3. Goleuni stryd - Pryderon ynglŷn â goleuni Rhif 6 Maes Llewelyn. Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir.

2.4 . Y Fynwent – Prynu tir. Disgwyl ymateb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

2.6.Allotments –KW I drafod clirio'r ffynnon gyda Mr Christopher Jones.

2.7.Cychod wedi eu gadael – Cafwyd adroddiadau fod y cychod wedi symud o'r lleoliad.

2.8.Croesffordd Dothan- KW yn adrodd fod y gwaith wedi dechrau ar yr arwydd newydd ar gyfer y groesffordd. Cytunwyd felly na fyddai'r Cyngor Cymuned yn gwneud cais am arwydd metel gan y Cyngor Sir.

2.9.Torri gwrychyn - lon y rhandiroedd. Clerc i gysylltu ag RPG ynglŷn â rhan o'r gwrychyn sydd heb ei dorri.

2.10. Llys Llewelyn - toiledau. CGT yn adrodd fod y toiledau wedi eu hail-agor o ganlyniad i drafodaethau gyda Mr Cantrell (perchennog Llys Llewelyn). Cyngor Cymuned Aberffraw i gyfrannu hyd at gyfanswm £300, fel y cytunwyd yng nghyfarfod mis Mawrth, tuag at gostau glanhau deunyddiau ac yswiriant. Awgrymwyd y dylai'r Cyngor Cymuned ystyried opsiynau eraill megis defnyddio cyfleusterau Neuadd Glannau Ffraw. RFO yn awgrymu codi tal isel er enghraifft 20c am ddefnydd o'r cyfleusterau. Efallai y bydd cyllid ar gael o gronfa 14 ar gyfer toiledau anabl. Y mater i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

2.11. Cyngor Sir Ynys Môn - Ymgynghoriad y Gyllideb. RH yn mynegi pryderon ynglŷn â'r diffyg manylion yn y ddogfen. Pryder yn arbennig mewn perthynas â'r pennawd "incwm yn deillio o werthu asedau" fodd bynnag nid oes unrhyw fanylion ynglŷn â gwerth yr asedau. Cyng. P Rogers i ymchwilio..

2.12. Clwb Pêl droed Aberffraw- Disgwyl derbyn copi o gyfrifon diweddaraf y clwb er mwyn prosesu'r rhodd o £200.

2.13.Christine Bowler - Spirit of Bro Aberffraw - Byrddau celf. KW yn adrodd ei fod wedi cyfarfod â Christine Bowler ar y safle. Y byrddau i'w gosod ar wal allanol y neuadd ger y fynedfa. Pryderon wedi eu mynegi ynglŷn â chyflwr y paent ar du allan yr adeilad. KW yn adrodd fod y Gwasanaeth Tân wedi cynnig golchi'r waliau allanol. Cytunwyd y byddwn yn croesawu unrhyw gymorth o'r fath.

2.14.Cyngor Sir Ynys Môn – Rheoli Gwastraff – Treialu Gorfodaeth. Deallir for y treialu wedi dechrau.

2.15 Cae chwarae – Sbwriel- Adroddwyd fod y sbwriel a'r gwydr wedi torri wedi ei symud o'r cae.

2. Ceisiadau Cynllunio

Dim.

3 Gohebiaeth

3.1 Ystâd Bodorgan - Anfoneb rhent mewn perthynas â'r rhandiroedd. Wedi ei hawdurdodi i'w thalu.

3.2 Anglesey County Council – Adroddiad o sbwriel wedi ei adael ar y cae chwarae. Deallir fod hen fatres wedi ei gadael wrth y fynedfa. CGT i ymchwilio a chludo'r fatres i'r ganolfan ailgylchu os yn bosib.

3.3 Mr J D Roberts Archwiliwr Mewnol – Anfoneb am £69.00 mewn perthynas â'r archwiliad mewnol 2015-2016. Wedi ei hawdurdodi i'w thalu.

3.4 Mon Grass Cutting Services – Anfonebau am dorri glaswellt y fynwent a'r llwybrau cyhoeddus.

3.5 Ystâd Bodorgan - Wedi ail-gyflwyno cais cynllunio ar gyfer gosod peiriannau talu am barcio ym Mhorth Trecastell a Phorth Nobla. Ystâd Bodorgan yn awgrymu cynllun i adael i drigolion lleol barcio am gost isel - efallai £5.00 y flwyddyn. Yr ystâd yn argymhell fod y Cyngor Cymuned yn gweinyddu'r cynllun ac yn cael cadw unrhyw elw a wneir. KW yn adrodd fod cynllun tebyg ar waith yn Rhosneigr. KW yn datgan y byddai'n fodlon gwerthu'r tocynnau yn Swyddfa'r Post. Y mater i'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

4 Etholiadau Cynghorau Cymuned - 4^{ydd} o Fai 2017

Clerc yn adrodd mai 3 ffurflen enwebu yn unig a gyflwynwyd mewn perthynas â Chyngor Cymuned Aberffraw ar gyfer yr etholiadau i'w cynnal ar 4^{ydd} o Fai 2017. Mae'r tri ymgeisydd felly; CG Topps, RF Owen ac W Hughes wedi eu hethol yn ddiwrthwynebiad. Clerc wedi ei chynghori gan Gyngor Sir Ynys Môn ei bod yn bosib y bydd angen i'r Prif Weithredwr enwebu unigolyn i eistedd ar y Cyngor Cymuned dros dro er mwyn ffurfio cworwm. Clerc yn disgwyl cyfarwyddiadau. Y Cynghorwyr presennol yn parhau yn eu seddi hyd at yr 8fed o Fai. Deallir ei bod yn debygol y bydd angen gohirio cyfarfod mis Mai.

5 Cyfrifon 2016-2017

Rhannwyd copi o grynoded o gyfrifon y flwyddyn, gan gynnwys manylion yr holl daliadau a derbyniadau ynghyd a balansau banc i'r aelodau. Dim pryderon wedi eu mynegi. Clerc yn adrodd fod y Cyngor Cymuned wedi diweddu'r flwyddyn gyda chyfanswm ariannol o £12,833 ffigwr tebyg i ddiwedd y flwyddyn 2016. Cynigwyd gan RS ac eiliwyd gan AG bod Cyngor Cymuned Aberffraw yn cymeradwyo'r cyfrifon. Y dogfennau i'w cyflwyno ar gyfer archwiliad mewnol ar 6^{ed} o Fehefin 2017.

6 UFA

Clerc – Clerc i aros yn y swydd am gyfnod. Cytunwyd y dylid darparu lle ar gyfer y Clerc i gadw dogfennau a ffeiliau yn gysylltiedig â'r Cyngor Cymuned yn Neuadd Glannau Ffraw. KW i ystyried opsiynau.

7 Cyllid

Taliadau:

M Evans	Cyflog Chwarter 3 a 4	£1286.80
CG Topps	Ad-daliad torch Sul y Cofio	£ 25.00
HMRC	Treth Clerc 2016-2017	£ 121.00

Derbyniadau:

Preswylfa Cyf	Gosod carreg fedd	£ 45.00
LA Williams	Rhent	£187.00

8 Lotri - L04

1af	103	Mr W Hughes	£25.00
2il	111	Mrs Catherine Williams	£10.00

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberffraw a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw
am 7 y.h. nos Fercher 19^{fed} o Orffennaf 2017

Presennol: *J H Owens (Cad), R F Owen, M T Smithurst W Hughes, K Woods, S Goodgroves, C Davies, A Hughes, A Jones, E Evans, Cyng Bryan Owen, Cyng Peter Rogers, PCSO Alison Williams*

Ymddiheuriadau: *CG Topps, R B Owen,*

1. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 21/06/2017 eu derbyn yn gywir ar sail yr adroddiad Saesneg a ddosbarthwyd gyda'r Agenda. CD yn cynnig, eilwyd gan KW.

2. Aelodau newydd – Wedi eu cyf-ethol i lenwi seddi gweigion

Estynwyd croeso i Mrs Avril Hughes, Mr Arfon Jones a Mr Elwyn Evans fel aelodau newydd y Cyngor Cymuned (R B Owen ddim yn bresennol). Pob aelod newydd wedi arwyddo Datganiad Derbyn Swyddac wedi derbyn copi o'r Côd Ymddygiad.

3. Penodi Cadeirydd / Is-gadeirydd

Clerc yn gwahodd yr aelodau i enwebu Cadeirydd ac Is-gadeirydd. Clerc yn datgan fod CGT wedi mynegi y byddai yn fodlon ail-sefyll. Cynigodd MTS Mr John H Owens fel Cadeirydd ac eilwyd gan KW. Dim enwebadau eraill. WH yn enwebu MTS fel Is-gadeirydd. MTS yn gwrthod ond yn datgan y byddai yn fodlon cynorthwyo'n achlysurol fel bo'r angen. WH yn enwebu KW fel Is-gadeirydd, eilwyd gan MTS. Dim rhagor o enwebiadau. Cytunwyd felly fod Mr J H Owens wedi ei benodi yn gadeirydd y Cyngor Cymuned a Mr Keith Woods yn Is-gadeirydd.

4. Materion yn codi

4.1 Gwefan - Clerc yn adrodd for Mr Richard Stallwood ar hycostau misol y wefan o'i gyfrif banc personol gyda'r Cyngor Cymuned yn ad-dalu'r costau. Clerc yn adrodd fod Mr Stallwood am wneud trefniadau i newid y taliaadau fel eu bod yn dod o gyfrif y Cyngor Cymuned. RS i gysylltu â Mr Neil Summers.

4.2. Neuadd Glannau Ffraw – KW wedi darparu crynodeb o'r cynllun gwaith. Y gwaith i gynnwys golchi a phaentio'r waliau allanol, gosod goleuadau oddi allan a delio gyda'r broblem o damprwydd yn yr ystafell bwyllgor. Angen addasu'r llecyn parcio o flaen y neuadd i greu lle i ragor o gerbydau. Bydd rhaid tynnu'r wal gerrig isel gan ei fod yn yn berygl baglu a lleihau'r llecyn glaswellt. KW yn adrodd fod Mr H R Hughes yn darparu cerrig am bris gostyngedig. Bwriedir adeilaidu toiled aml-bwrpas gyda mynediad o'r tu allan fel y gellir ei agor ar gfer defnydd gan y cyhoedd petai angen. Adroddwyd y bydd y gwaith angen Archwiliad Adeiladu ond nii fydd angen caniatad cynllunio. Cyng B Owen yn egluro fod arian grant ar gael o nifer o ffynhonnellau megis y Cyngor Sir, Horizon, Ymddiriedolaeth Elusennol ac awgrymodd y gall y Cyngor Cymuned ystyried gwneud cais.

JHO yn egluro fod angen sefydlu Pwyllgor Rheoli ar frys. Cyfarfod cyhoeddus i'w gynnal ar nos Fercher 9fed o Awst am 7:00 y.h. CD yn gwirfoddoli i ddarparu posteri i hysbyebu'r digwyddiad.

4.3. Street Lighting – Bro Branwen – Y Fron. Pryderon wedi eu mynegi ynglyn â chornel dywyll. Awgrymwyd y gellid symud y lampau fel eu bod yn taflu goleuni ar y llwybr. Cyng B Owen i gysylltu â'r Swyddog Goleuni.

4.4. Y fynwent – Clerc yn datgan ei bod wedi derbyn e-bost gan y Cyngor Sir yn cadarnhau eu bod yn gweithredu ar y mater.

4.5. Rhandiroedd –KW yn adrodd ei fod wedi trafod y mater gyda Mr Christopher Jones. KW a MTS i ymweld a'r safle.

4.6. Croesffordd Dothan– KW yn adrodd fod yr arwyddbost newydd yn barod.

4.8. Provision of public toilets. Deallir fod y toiledau yn Llys Llewelyn yn parhau i fod yn agored ar hyn o bryd ond disgwyliar na fydd hyn yn prhau yn yr hir dymor. Bydd y cynlluniau ar gyfer Neuadd Glannau Ffraw yn gadael mynediad i'r toiledau o'r tu allan fel y gellir eu hagor ar gyfer defnydd gan y cyhoedd petai angen yn y dyfodol (gweler 4.2.)

4.10. Christine Bowler – Cynllun Bro Aberffraw – Bwriedir cyflwyno'r cais am ganiatad cynllunio.

4.13. Wal wedi dymchwel – cilfan ar y A4080 ffordd Tywyn Aberffraw. Cafwyd cadarnhad fod y wal wedi ei drin.

4.14. Ystad Bodorgan – Cynllun parcio cymunedol. Cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn gwenyddu'r cynllun. Y manylion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf. KW i werthu'r tocynnau yn Swyddfa'r Post.

5 Ceisiadau Cynllunio

Dim wedi eu derbyn

6 Gohebiaeth

- 6.1 Mon Grass Cutting Services – Anfonebau am dorri glaswellt y fynwent a'r llwybrau cyhoeddus. Wedi eu hawdurdodi i'w talu.
- 6.2 Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn – Llythyr yn gwahodd enwebiadau ar gyfer y Pwyllgor Safonau. Angen ceisiadau i law erbyn 5yh. 31^{ain} Gorffennaf 2017.
- 6.3 Un Llais Cymru – Gwybodaeth ynglyn â hyfforddiant Côt Ymddygiad i gynnal yn Neuadd Cyngor Tref Llangefni ar nod Fercher 26ain o Orffennaf. CD i fynychu.
- 6.4 Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Mon
Adroddiad ar ganlyniad yr adolygiad o gofrestrau diddordebau aelodau mewn sampl o Gynghorau Tref a Chymuned. Copi o'r adroddiad wedi ei ddsbarthu i'r aelodau a chafwyd trafodaeth ar y canlyniadau a'r argymhellion.
- 6.5 Gwyl Rhosneigr a'r Fro
KW yn datgan diddordeb fel Cadeirydd yr Wyl. Llythyr yn gwneud cais am gyfraniad tuag at yr wyl sydd i'w chynnal ar ddydd Sadwrn 29ain o Orffennaf. Cynigwyd gan MTS ac eilwyd gan RFO fod y Cyngor Cymuned yn cyfrannu £200. Pawb yn cytuno.
- 6.6 Un Llais Cymru
Protocol Datrys yn Lleol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned– trefniant newydd ar gyfer delio â chwynion yn erbyn aelodau.

7 Cyfrifon 2016-2017

Cyfarfod Arbennig weid ei gynnal ar nos Iau 29^{ain} o Fehefin am 6:30 yh i gymeradwyo'r cyfrifon ar gyfer y flwyddyn 2016-17 ac i gyfethol 3 aelod newydd. Cynigwyd gan MTS ac eilwyd gan KW fod cofnodion y cyfarfod yn gywir.

8 UFA

- 8.1. Sioe Aberffraw
CD yn datgan fod pwyllgor y Sioe yn ceisio codi arian ac yn dymuno genwud cais am arian gan y Cyngor Cymuned. Cynigwyd gan AJ ac eilwyd gan KW y dylid rhoi cyfraniad o £200.
- 8.2. Gweledigaeth ar gyfer dyfodol y pentref
CD yn mynegi pryderon ynglyn ag edrychiad bler rhai ardaloedd o'r pentref. CD yn awgrymu y dylai'r Cyngor Cymuned annog pentrefwyr i roi ychydig o'u hamser yn wirfoddol i dacluso ardaloedd o amgylch y pentref gyda'r gobaith o wella edrychiad cyffredinol y pentref. MTS yn adrodd fod Clwb Pel droed Aberffraw wedi cytuno i gynorthwyo gyda gwaith o'r fath. Y mater i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.
- 8.3. Parcio – Cyffordd Stryd yr Eglwys
Pryderon yn parhau ynglyn â'r parcio ar y gyffordd er cysylltu sawl gwaith dros y blynyddoedd gydag adran Briffyrdd Cyngor Sir Ynys Mon. Clerc i drefnu ymweliad â'r safle.
- 8.4. Cyngor Sir Ynys Mon – Argymhelliad i gynyddu nifer yr aelodau ar y pwyllor gweithredu.
Cyng B yn adrodd fod y grwp rheoli Cyngor Sir Ynys Mon wedi datgan eu bod yn dymuno creu 2 swydd gyflogedig ychwanegol ar y pwyllor gweithredu. Pryderon wedi eu mynegi ynglyn â'r goblygiadau o ran cost yn arbennig felly yn y cyfnod presennol o doriadau cyllidol. Cytunwyd fod y Clerc i anfon llythyr at y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol i fynegi pryderon ac i wneud cais eu bod yn ymchwilio ymhellach i'r argymhelliad.
- 8.5. Heddlu Gogledd Cymru - Estynnwyd croeso i PCSO Alison Williams yn ôl i'r ardal.
- 8.6. Asesiad – dim newidiadau. Wedi ei gymeradwyo gan bawb yn bresennol.

9 CyllidTaliadau:

04/06/2017	Ystâd Bodorgan	Rhent	£3844.00
29/06/2017	MGCS	Torri Glaswellt	£ 400.00
29/06/2017	CPD Aberffraw	Rhodd	£ 200.00
30/06/2017	M Evans (Clerc)	Cyflog	£ 673.60

Derbyniadau

10/07/2017	Amrywiol	Rhent	3857.00
28/07/2017	Amrywiol	Rhent	587.00

10 Lotri - L06 / 7

1 ^{af}	45	Mrs Doreen Owen	£25.00
2 ^{il}	58	Cwyfan Jones	£10.00
1 ^{af}	43	Mrs D Nash	£25.00
2 ^{il}	14	Mrs Phyllis Roberts	£10.00

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberffraw a gynhaliwyd yn
Neuadd Glannau Ffraw, am 7 y.h. nos Fercher 20^{fed} o Fedi 2017

Presennol: *K Woods (Cad), R F Owen, W Hughes, C Davies, E Evans, R B Owen,
Cyng. Bryan Owen, Cyng. Peter Rogers*

Ymddiheuriadau: *J H Owens, CG Topps M T Smithurst, A Jones, A Hughes*

1. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 19/07/2017 eu derbyn yn gywir ar sail yr adroddiad Saesneg a ddosbarthwyd gyda'r agenda. WH yn cynnig, eiliwyd gan RFO.

2. Aelod newydd

Croesawyd Mr Barry Owen i'r cyfarfod ac arwyddodd Ddatganiad Derbyn Swydd. Darparwyd copi o'r Cod Ymddygiad i Mr Owen.

3. Materion yn Codi

3.1 Gwefan - Clerc yn adrodd ei bod wedi derbyn ymholiad gan Gadeirydd Pwyllgor Neuadd Glannau Ffraw ynglŷn â gwefan y Cyngor Cymuned. Cytunwyd y dylid cyfyngu cynnwys gwefan swyddogol i'r wybodaeth statudol ar hyn o bryd a rhoi cysylltiadau i wefannau eraill megis Neuadd Glannau Ffraw a gwybodaeth am y pentref. Clerc i wneud ymholiadau gyda Mr Neil Summers.

3.2. Neuadd Glannau Ffraw - KW yn adrodd fod Pwyllgor Rheoli newydd wedi ei ffurfio gyda Mr Mike Wilson yn y gadair a Mr John Owens yn drysorydd. Clerc yn adrodd fod oddeutu £13K ar ôl o gyllid New Forest Energy. Deallir hefyd fod gan y Neuadd £7K yn ychwanegol. Blaenoriaeth i'w roi i ddarparu toiledau gyda mynediad o'r tu allan a pheiriant talu ar y drws. Trafodwyd y syniad o greu ystafell bwyllgor ychwanegol gyda mynediad o'r tu allan. Cyng. B Owen wedi gwneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir mewn perthynas â grantiau. Gellir ystyried defnyddio'r llecyn parcio o flaen y neuadd ar gyfer y llyfrgell symudol. KW yn adrodd ei fod wedi trefnu fod Coleg Menai am gwblhau peth o'r gwaith plymio yn y neuadd fel rhan o brosiect hyfforddi. O ganlyniad bydd y gost yn ostyngedig.

3.3. Goleuni Stryd - Bro Branwen - Y Fron. Pryderon ynglŷn â chornel heb ei goleuo. Cyng. B Owen yn adrodd ei fod wedi cyfarfod gyda'r Swyddog Goleuadau ar y safle ac wedi ei hysbysu y byddai'n rhaid i'r Cyngor Cymuned gyfrannu £2,500 tuag at lamp newydd. Cytunwyd y dylai'r Cyngor Cymuned ystyried opsiynau eraill. Cafwyd adroddiad fod un lamp wedi ei goleuo drwy gydol yr amser ar Sgwâr Bodorgan.

3.4. Y Fynwent - Prynu tir - Manylion y cyfreithiwr wedi eu rhoi i'r Cyngor Sir.

3.5. Rhandiroedd - KW a MTS i ymweld â'r safle i edrych ar y ffynnon. Clerc yn adrodd ei bod wedi gwneud trefniadau gyda Richard Parry i dorri'r gwrychoedd.

3.6. Croesffordd Dothan - arwyddbost newydd - KW i wneud ymholiadau.

3.7. Ystâd Bodorgan- Cynllun parcio. I'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

3.8. Gweledigaeth ar gyfer dyfodol y pentref - CD yn awgrymu y gall y Cyngor Cymuned baratoi cylchlythyr i hyrwyddo'r cynllun. Awgrymwyd hefyd y gellid cynnwys y wybodaeth ar y wefan. KW yn awgrymu y dylid darparu trefniant ar gyfer prosiectau amrywiol. CD i gyfarfod gyda KW i edrych o amgylch y pentref a nodi'r llecynnau sydd angen sylw. KW a CD i adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.

3.8. Parcio - Cyffordd Stryd yr Eglwys - Cyng. B Owen yn adrodd ei fod wedi cyfarfod â Swyddog o'r Adran Briffyrd ar y safle. Cyngor Sir Ynys Môn i baratoi cynigion ar gyfer cyfyngu ar barcio yn yr ardal gyda llinellau melyn. Bwriedir cyflwyno'r cynigion i'r Cyngor Cymuned i'w cymeradwyo. Angen rhoi sylw i'r marciau ar y ffordd yn arwain o stad y Fron tuag at y pentref. Y mater i'w ddwyn i sylw'r Adran Briffyrd.

4 Ceisiadau Cynllunio

Cais ar gyfer gosod byrddau arddangos celf ger mynedfa Neuadd Glannau Ffraw wedi ei gyflwyno gan Brosiect 14.

5 Gohebiaeth

5.1 Mon Grass Cutting Services - anfonebau ar gyfer torri glaswellt y fynwent a'r llwybrau cyhoeddus wedi eu hawdurdodi i'w talu.

- 5.2 Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn - Llythyr yn gwahodd y Cyngor Cymuned i enwebu unigolyn i eistedd ar y Pwyllgor Safonau. Dyddiad cau 31^{ain} o Hydref 2017.
- 5.3 Un Llais Cymru - Anfoneb am £40 yn dilyn cwrs Côt Ymddygiad a gynhaliwyd ar 26ain o Orffennaf, wedi ei fynychu gan CD. CD yn adrodd fod yr hyfforddiant wedi ei gyflwyno'n effeithiol a'i fod yn ddiddorol iawn. Yr anfoneb wedi ei hawdurdodi i'w thalu.
- 5.4 Adran Dai Cyngor Sir Ynys Môn
E-bost yn gofyn i'r Cyngor Cymuned dorri'r gordyfiant rhwng y wal a ffens y cae chwarae ger Maes Llewelyn. Deallir fod gwastraff adeiladu wedi ei adael yn y lle cyn hwn yn dilyn y gwaith atgyweirio diweddar a waned ar rannau o Faes Llewelyn. KW i ymchwilio.
- 5.5 Senedd Cymru
Gwybodaeth ynglŷn â chlystyru Cyngorau Cymuned.
- 5.6 Un Llais Cymru
Gwybodaeth ynglŷn â'r Pwyllgor Rhanbarthol. KW i fynychu.
- 5.7 Cyngor Sir Ynys Môn– Warden AoHNE
E-bost wedi ei derbyn gan Mr William Stockwell ynglŷn â chymorth sydd ar gael i gymunedau ddelio â phroblemau megis baw cwn gadael sbwriel. Clerc i estyn gwahoddiad i Mr Stockwell i fynychu'r cyfarfod nesaf.
- 5.8 Mrs Sue Goodgroves - ymddiswyddiad
Llythyr wedi ei dderbyn gan Mrs Goodgroves yn ymddiswyddo fel aelod o Gyngor Cymuned Aberffraw. Clerc i wneud trefniadau i hysbysebu'r sedd wag.

6 UFA

- 6.1. Mr O Glyn Jones
Cyng. Bryan Owen yn awgrymu fod y Cyngor Cymuned yn anfon llythyr o gydymdeimlad at Mr O G Jones, cyn gynghorydd sir yn dilyn marwolaeth ei wraig. Pawb yn cytuno.
- 6.2. Sioe Aberffraw
Cyng. P Rogers yn llongyfarch y gwirfoddolwyr am drefnu sioe lwyddiannus eto eleni.
- 6.3. Ffordd yn arwain o Soar tuag at Fethel
EE yn mynegi pryderon ynglŷn â'r gwrychoedd wedi gordyfu ar y lon rhwng Soar a Bethel. Nid yw'n eglur os yw'r lon dan sylw o fewn ffiniau Aberffraw. Clerc i wneud ymholiadau.
- 6.4. Road leading over the railway bridge near Bethel
Adroddwyd fod damwain arall wedi digwydd ar y tro yn dilyn pont y rheilffordd. Clerc i gysylltu â Chyngor Cymuned Bodorgan.
- 6.5. Ymgynghoriad Senedd Cymru
EE yn adrodd fod ymgynghoriad ar waith i edrych ar fynediad y cyhoedd i dir. Mae'r cynigion yn cynnwys newid llwybrau troed cyhoeddus i lwybrau marchogaeth / beicio a chaniatáu gwersylla ar dir. Pryderon ynglŷn ag effaith newidiadau o'r fath ar y pentref. Mae gwersylla heb ganiatâd yn y gorffennol wedi arwain at adael sbwriel a niweidio eiddo.
- 6.6. Cae Chwarae
Mynegwyd pryderon nad oes ffens rhwng y cae chwarae a'r ffordd gyferbyn â'r fynwent ac nad oes felly ddim i rwystro plant rhag rhedeg i'r ffordd. Deallir for pyst yn eu lle yn barod. KW am ymchwilio i'r mater.

7 Cyllid

<u>Taliadau:</u>	30/07/2017	Un Llais Cymru	Tanysgrifiad	£ 103.00
	30/07/2017	MGCS Gorff – Awst	Torri glaswellt	£ 800.00
	15/08/2017	Sioe Aberffraw	Rhodd	£ 200.00

<u>Derbyniadau:</u>	30/08/2017	CSYM	Priseb	£2333.00
----------------------------	------------	------	--------	----------

8 Lotri - I'w dynnu yn Swyddfa'r Post

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberffraw a Gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw am 7 y.h ar nos Fercher y 18fed o Hydref 2017

Presennol: *J H Owens (Cad), CG Topps, A Hughes, W Hughes, A Jones, C Davies, K Woods, Cyng Bryan Owen, Cyng Peter Rogers*

Ymddiheuriadau: *R F Owen, M T Smithurst, R B Owen, E Evans*

1. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 20/09/2017 eu derbyn yn gywir ar sail yr adroddiad saesneg a ddisbarthwyd gyda'r Agenda. KW yn cynnig, eilwyd gan CD.

2. Mr William Stockwell – Warden AHNE

Mr Stockwell yn egluro fod cyllid ar gael gan Gyfoedth Naturiol Cymru i AoHNE megis Aberffraw i ddelio gyda'r broblem o faw cwn. Byddai'r cymorth ariannol yn talu hyd at 75% o gost daliwr bagiau i'w gosod ar bolion. Amcangyfrifir y byddai'r daliwr yn cosio oddeutu £75 - £100. Mr Stockwell i gysylltu â'r Clerc gyda rhagor o wybodaeth.

Mynegwyd pryderon ynglyn â'r diffyg gweithredu gan yr awdurdod i ddatrys y broblem. Adroddwyd fod angen tystiolaeth er mwyn rhoi dirwy ac felly byddai'n ofynnol fod y swyddog gorfodaeth yn bresennol fel tyst i'r digwyddiad.

3. Materion yn codi

3.1 Gwefan - Clerc yn adrodd ei bod wedi trafod y posibilrwydd o ddarparu cysylltiadau o wefan y Cyngor Cymuned i wefannau eraill ac wedi ei hysbysu gan Mr Neil Summers y gellir gwneud hyn.

3.2. Goleuni Stry– Dim pryderon ynglyn â goleuni stryd, fodd bynnag, CD yn holi ynglyn â chael goleuni ar y llwybr sy'n arwain at Neuadd Glannau Ffraw. KW yn adrodd fod goleuni o amgylch tu allan y neuadd yn rhan o'r cynllun adnewyddu.

3.3. Y fynwent– Prynu'r tir- Manylion y cyfreithiwr wedi eu pasio i'r Cyngor Sir.

3.4. Rhandiroedd - KW a MTS i ymweld â'r safle i edrych ar y ffynnon. Adroddwyd fod y gwrychoedd wedi eu torri gan Mr Richard Parry – yr anfoneb wedi ei hawdurdodi i'w thalu.

3.5. Croesffordd Dothan– arwydd newydd - KW i wneud ymholiadau.

3.6. Ystad Bodorgan – Cynllun Parcio. I'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

3.7. Gweledigaeth ar gyfer dyfodol y pentref – CD yn awgrymu y gall y Cyngor Cymuned gynhyrchu taflen wybodaeth i hyrwyddo'r cynllun. Awgrymwyd y gellir cynnwys y wybodaeth ar y wefan. KW yn awgrymu y dylid paratoi cynlluniau gwaith ar gyfer gwahanol brosiectau. CD i gyfarfod gyda KW i edrych o amgylch y pentref a nodi'r ardaloedd sydd angen sylw. KW a CD i adrodd yn ol yn y cyfarfod nesaf.

3.8. Parcio – Cyffordd Stryd yr Eglwys – Cyng B Owen yn adrodd ei fod yn disgwyl y bydd y Cyngor Sir yn cyflwyno argymhellion erbyn cyfarfod mis Tachwedd.

4. Archwiliad Allanol

Clerc yn adrodd fod yr archwiliad wedi ei gblhau gan BDO gyda'r canlynol wedi ei ddwyn i sylw'r Cyngor Cymuned:-

Mae gan y Cyngor Cymuned wefan ond nid yw'n cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.

Cynigwyd gan AJ ac eilwyd gan WH fod Cyngor Cymuned Aberffraw yn derbyn barn yr Archwiliad. Clerc i sicrhau fod y wefan wedi ei diweddarau.

5. Ceisiadau Cynllunio - dim

6. Gohebiaeth

6.1. Cyngor Sir Ynys Môn – Llwybrau

Ebost yn datgan pryder ynglyn â rhan o'r llwybr arfordirol ar y penrhyn. JHO yn adrodd ei fod wedi trafod y mater gyda thenant y rhandir perthnasol a'i fod wedi ei sicrhau y byddai y cymryd camau i wella'r sefyllfa.

- 6.2 Cyngor Sir Ynys Môn – Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned Cyfarfodydd i'w cynnal ar 21/11/2017 a'r 22/03/2018. CD i fynychu.
- 6.3 Mon Grass Cutting Services – Anfoneb ac ymholiad ynglyn a thoriadau ychwanegol. Cytunwyd y byddai angen un torriad ychwanegol, fodd bynnag, y Clerc i ofyn i MGCS adael y torri mor agos â phosib at Sul y Cofio. Anfoneb wedi ei hawdurdodi i'w thalu.
- 6.4 Cais am gymorth arianol – digwyddiad cymunedol
Cais gan Christine Hallsworth am £270 i dalu am Rodeo / castell neidio ar gyfer ffair gymunedol. Byddai'r atyniad ar gael am ddim i blant yn mynychu'r digwyddiad. Clerc yn cadarnhau fod cyllid ar gael yn y gyllideb. CGT yn cynnig ac AJ yn eilio y dylai'r Cyngor Cymuned gyfranni £270.
- 6.5 Cyngor Sir Ynys Môn - Hyfforddiant Cod Ymddygiad
Dyddiadau seynau hyfforddi.
- 6.6 Un Llais Cymru – Memorandum of Understanding to abolish burial fees for children under the age of 18 in Wales. Cynigwyd gan CGT ac eilwyd gan AJ fod Cyngor Cymuned Aberffraw yn cefnogi'r cynnig.

7. Rhandiroedd

Rhindiroedd Rhif 21 a Rhif 24 i'w gosod o 13/11/2017. Rhybuddion i'w harddangos gyda dyddiad cau o hanner dydd 6/11/2017. Cyfarfod byr i'w gynnal am 7:00 yh. ar 6/11/2017 yn y Neuadd i drafod y ceisiadau a phenderfynu ar denantiaid..

8. Sedd Wag

Yn dilyn ymmdiswyddiad Mrs Sue Goodgroves, adroddodd y Clerc fod Gwasanaethau Etholiadol y Cyngor Sir wedi darparu rhybuddion i'w harddangos. Dyddiad cau 8/11/2017.

9. UFA

9.1. Glan y Môr

GT yn mynegi pryderon ynglyn â chyflwr gwael y ffordd yng Nglan y Mor. Cyng Bryan Owen yn adrodd ei fod wedi trafod y mater gyda Swyddog o'r Adran Briffyrdd ac wedi ei hysbysu nad oes cyllid ar gael ar gyfer unrhyw waith sylweddol ar hyn o bryd.

9.2. Rhodd o gadeiriau i'r Neuadd

Nifer o gadeiriau wedi eu rhoi i'r Neuadd gan Mr A Cantrell. Clerc i anfon llythyr o ddiolch.

9.3. Cae Chwarae

Pryderon ynglyn â'r ddiffyn ffens ar y ffin rhwng y cae chwarae a'r ffordd gyferbyn â'r fynwent. Pryderon nad oes dim i atal plant rhag rhedeg i'r ffordd. Deallir fod pyst yn eu lle yn barod. KW i ymchwilio.

9.4. Sul y Cofio

Y gwasanaethi'w gynnal yn Eglwys St Beuno ar ddydd Sul 12/11/2017. Angen ad-dalu £26.00 i CGT am y dorch sydd i'w chyflwyno ar ran Cyngor Cymuned Aberffraw.

9.5. Gwrychyn y fynwent

JHO yn adrodd ei fod wedi derbyn dyfynbris o £420 gan Mr George Simcox ar gyfer torri gwrychoedd y fynwent, yn cynnwys y gwrychyn y tu ôl i'r beddfeini gyda'r holl wastraff wedi dymud o'r safle. Cadarnhaodd JHO fod gan Mr Simcox yswiriant cyhoeddus. Pawb yn cytuno fod hyn yn dderbyniol.

9. Cyllid

Taliadau:

30/09/2017	Menna Evans (Clerc)	Cyflog Gorff –Medi	£ 673.60
------------	---------------------	--------------------	----------

Derbyniadau:

10. Lotri – L10

Rhif 55	Mrs G Hughes	£25.00
Rhif140	Mr C G Topps	£10.00

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberffraw a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau Ffraw, am 7 yh. Nos Fercher 15fed o Dachwedd 2017

Presennol: *J H Owens (Cad), R B Owen, W Hughes R F Owen, C Davies, Cyng Bryan Owen, Cyng Peter Rogers*

Ymddiheuriadau: *M T Smithurst, CG Topps, E Evans, A Jones, K Woods, A Hughes,*

1. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 18/10/2017 eu derbyn yn gywir ar sail yr Adroddiad Saesneg a ddosbarthwyd gyda'r Agenda. WH yn cynnig, eilwyd gan CD.

2. Mr William Stockwell – Warden AoHNE

Mewn perthynas ag arian ar gael gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer AoHNE fel Aberffraw i ddelio gyda'r broblem o faw cwn. Disgwyl rhagor o wybodaeth gan Mr Stockwell

3. Materion yn Codi

3.1 Safle We - Clerc yn adrodd ei bod wedi cysylltu â Mr Satllwood ac wedi trafod trosglwyddo perchnogaeth y safle i'r Cyngor Cymuned. Mr Stallwood i wneud y trefniadau.

3.2. Goleuni Stryd – Cyng B Owen yn adrodd ei fod wedi derbyn cwynion ynglyn â'r diffyg goleuni ar y llwybr wrth ochr y neuadd ac i gefn Bro Branwen. Awgrymwyd fod angen newid ychydig ar ongl y goleuni presennol. Cyng Owen i drafod gyda'r Swyddog Goleuni Stryd.

3.3. Y Fynwent – Prynu tir – Clerc yn adrodd fod y pryniant yn mynd yn ei flaen. Y costau i gynnwys £1 am y tir, £585 costau cufreithiol a £75 ar gyfer arolwg.

3.4. Croesffordd Dothan – arwydd newydd - KW i wneud ymholiadau.

3.5. Ystad Bodorgan – Cynllun Parcio I'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

3.6. Gweledigaeth ar gyfer dyfodol y pentref - CD yn adrodd ei bod wedi cyfarfod â KW. Angen torri'r gwrychyn tu ôl i Min y Môr.

3.7. Parcio – Cyffordd Stryd yr Eglwys – i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

3.8. Cae Chwarae – Pryderon ynglyn â'r diffyg ffens ar y ffin rhwng y cae chwarae a'r lon gyferbyn â'r fynwent. Pryderon nad oes dim i atal plant rhag rhedeg ar y lon. Deallir fod pyst yn eu lle yn barod. KW i ymchwilio.

4. Ceisiadau Cynllunio - dim

5. Gohebiaeth

5.1 Mon Grass Cutting Services – Anfoneb – wedi ei hawdurdodi i'w thalu. Clerc i ofyn i MGCS dorri'r glaswellt yn is.

5.2 Un Llais Cymru – Gwybodaeth ynglyn â hyfforddiant.

5.3 Horizon – Gwybodaeth ynglyn ag ymgynghoriad Wylfa

5.4 Cyngor Sir Ynys Môn – Blaenraglen Pwyllgor Gwaith

6. Rhandiroedd

Rhandir Rhif 21 a Rhif 24 i'w gosod o'r 13/11/2017. Clerc yn adrodd ei bod wedi ei hysbysu ar y 6/11/2017 nad oedd y rhybuddion wedi eu harddangor ar hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned. JHO yn cadarnhau fod hyn yn gywir. Cytunwyd felly y dylid arddangos y rhybuddion am 3 wythnos ychwanegol. Cyfarfod arbennig i'w drefnu ar gyfer y 6/12/2017 am 7:00 yh. Yn Neuadd Glannau Ffraw i drafod ceisiadau a phenderfynu ar denantiaid. Rhandiroedd i'w gosod o'r 13/12/2017 gyda'r gorchymun rhent cyntaf wedi ei addasu i adlewyrchu hyn.

7. Sedd Wag

Clerc yn adrodd nad oedd unrhyw un wedi dangos diddordeb yn y sedd wag erbyn y dyddiad cau sef 8/11/2017. Rhybudd cyf-ethol wedi ei ddarparu gan Wasanaethau Etholiadol y Cyngor Sir. Enwebiadau i'w trafod yn y cyfarfod i'w gynnal ar 06/12/2017.

8. **UFA**

8.1 Remembrance Sunday – Poppies

CD enquiring if the Community Council could take responsibility for the large poppies displayed around the village. JHO reported that a number of the poppies had been damaged.

8.2. Cemetery Hedge

JHO reported that Mr George Simcox would cut the hedge behind the headstones and remove all cuttings for a total cost of £740.00. Price would reduce to £540 if the cuttings could be left on site. JHO reported that Oliver Fowlie had agreed that the cuttings could be blown under the hedge. JHO also confirmed that Mr Simcox has public liability insurance. It was proposed by WH and seconded by RFO that Mr Simcox should be instructed to proceed with the cuttings to be blown under the hedge.

8. **Cyllid****Taliadau:**

18/10/2017	Rhosneigr Festival	Donation	£200.00
26/10/2017	MGCT	Grass cutting	£720.00
06/12/2017	C G Topps	Wreath	£ 26.00

Derbyniadau:9. **Lotri – L11**

Rhif 55	Mrs G Hughes	£25.00
Rhif 139	Mr C G Topps	£10.00

Cyfarfod Arbennig o Gyngor Cymuned Aberffraw a gynhaliwyd yn Neuadd Glannau
Ffraw am 7 yh. nos Fercher y 6ed o Ragfyr 2017

Present: *J H Owens (Cad), K Woods, CG Topps, E Evans, W Hughes, R F Owen, A Jones, C Davies*

Apologies: *R B Owen, M T Smithurst, K Woods, A Hughes,*

1. Rhandiroedd

Rhandiroedd Rhif 21 a Rhif 24 i'w gosod o 13/12/2017.

Rhandir Rhif 21: 3 ymgeisydd:-
Mr Owen Hughes
Mr G A T Holland
Mrs P Oliver

Ni ellid ystyried cais Mr Owen Hughes gan ei fod eisoes yn denant.

Ffurflenni cais wedi eu darllen i'r cyfarfod gan JHO. Cytunwyd y dylid cynnig tenantiaeth Rhandir Rhif 21 i Mrs P Oliver.

Rhandir Rhif 24: 1 ymgeisydd Mr Richard John Williams

Darllenodd JHO y ffurflen gais. Cytunwyd y dylid cynnig tenantiaeth Rhandir Rhif 24 i Mr Williams.

2. Sedd Wag

Clerc yn adrodd nad oedd wedi derbyn unrhyw ymholiadau ynglyn â'r sedd wag. KW yn enwebu Mr Stuart Austin, eilwyd gan AJ. Pawb yn cytuno.

Clerc i gysylltu â Mr Austin.

3. Materion Cynllunio

Cais Rhif 10C98A/CA – Estyniad ac addasiadau i Tywyn View, 128 Glan y Môr, Aberffraw. Cytunwyd fod y Cyngor Cymuned yn gefnogol o'r cais ar yr amod fod y newidiadau yn gweddu â'r eiddo cyfagos a chymeriad yr ardal.

4. UFA

Toiledau Llys Llewelyn– CGT yn adrodd fod y gost o gadw'r toiledau ar agor drwy'r haf oddeutu £1400. Mae'r swm yma yn daladwy i Mrs Linda Austin ac yn cynnwys y glanhau a'r holl ddeunyddiau. Adroddodd y Clerc nad oedd y gost ychwanegol wedi ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn . Cytunwyd fodd bynnag fod darparu toiledau cyhoeddus yn y pentref yn hanfodol ac y gellid trosglwyddo'r swm o'r arian wrth gefn. KW i anfon yr anfoneb i'r Clerc.

Llifogydd ger Llyn Coron – EE yn mynegi pryderon ynglyn â'r diffyg arwyddion i rybuddio modurwyr fod y ffordd ger Llyn Coron wedi cau yn ddiweddar. Clerk i gysylltu â'r adran Briffyrd.

5. <u>Lotri – L12</u>	Rhif 126	Mrs Diane Owen	£25.00
	Rhif 140	Mr C G Topps	£10.00